# HYFFORDDWR TENNIS LEFEL 2 ACHLYSUROL

# Canolfan Tennis a Nofio Ranbarthol PChRhC

## £10.36 yr awr

Mae Casnewydd Fyw yn ymddiriedolaeth arobryn nid er elw sy'n ymwneud â chwaraeon, hamdden a diwylliant; ac yn Elusen gofrestredig y DU sydd â hanes ardderchog o ddarparu rhaglenni a gwasanaethau arloesol i'n cymunedau a'n trigolion sy'n *'ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach'.*

Rydym yn dymuno recriwtio Hyfforddwr tennis â chymwysterau Lefel 2 addas i ymuno â'n Tîm Datblygu tennis arobryn yn y Ganolfan Tennis a Nofio Ranbarthol.

Bydd y rôl yn cynnwys hyfforddi chwaraewyr Iau ac Oedolion o bob oed a phrofiad o fewn Rhaglen tennis Canolfan tennis Casnewydd. Bydd cyflwyno Rhaglen Ieuenctid y Gymdeithas tennis Lawnt a Mentrau eraill y Gymdeithas tennis Lawnt eraill fel Youth Start a Tennis Xpress hefyd yn rhan bwysig o'r rôl ochr yn ochr â'n gwersi Grŵp presennol.

Byddwch yn meddu ar gymhwyster Cymdeithas tennis Lawnt Lefel 3 o leiaf, ynghyd â phrofiad perthnasol yn hyfforddi, gan ddangos y gallu i ddarparu gwersi tennis o ansawdd uchel i bobl ifanc ac oedolion ag ystod eang o alluoedd.

Mae'r swydd wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) ac mae'n amodol ar wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) llwyddiannus.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag ymholiadau Casnewydd Fyw ar 01633 656757 a gofyn am gael siarad â Luke Difranco, Rheolwr Tennis, neu e-bostiwch luke.difranco@newportlive.co.uk

**Proses Ymgeisio**

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais a disgrifiad swydd o wefan gyrfaoedd Casnewydd Fyw Ymgeisiwch nawr | Gyrfaoedd Casnewydd Fyw neu fel arall maent ar gael trwy gais e-bost oddi wrth jobs@newportlive.co.uk

Dychwelwch y ffurflenni cais cyflawn i jobs@newportlive.co.uk


# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **SWYDD:** | **Hyfforddwr Tennis Lefel 2** |
| **DIBEN Y SWYDD:** | Cyflwyno sesiynau a chynorthwyo'r Rheolwr Tennis i ehangu Rhaglen Tennis Casnewydd Fyw. Dylai’r hyfforddwr lefel 2 fod yn drefnus gyda sgiliau cyfathrebu da. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus fod ag angerdd am dennis a bydd disgwyl iddo weithio gyda chwaraewyr tennis mini, iau ac oedolion. Mae profiad o fod yn gyfrifol am wersylloedd chwaraeon a gwerthu cwsmeriaid a marchnata yn fantais. |
| **YN ATEBOL I’R:** | Rheolwr Tennis |
| **CYFLOG:** | £10.36 yr awr |
| **PERTHNASOEDD ALLWEDDOL:** | Rheolwr Tennis, Swyddog Cymorth Tennis, Hyfforddwyr Tennis, Tîm Rheoli Gweithredol, Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid. |
| **PRIF LEOLIAD:** | Lleoliadau Casnewydd Fyw, ysgolion lleol a lleoliadau eraill sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo. |
| **CYFRIFOLDEB RHEOLI:** | Arweinwyr Tennis |

**Byddaf yn llwyddiannus yn fy rôl pan**:

- Fydd fy holl gyfrifoldebau gweithredol allweddol yn cael eu cyflawni'n gyson i safon uchel.
- Byddaf yn cyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n benodol i'm rôl.
- Byddaf yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ymddygiadol Casnewydd Fyw drwy fy mherfformiad.
- Byddaf yn cydweithio ar draws adrannau a gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i gwsmeriaid Casnewydd Fyw.
- Trwy fy mherfformiad a'm hangerdd, rwy'n ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach

**SUT MAE FY MHERFFORMIAD YN CAEL EI FESUR**




***DATGELU A GWAHARDD:***

Gall y swydd hon olygu y byddwch mewn cysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu anabl. Mae Casnewydd Fyw yn gofyn felly, yn ôl Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, gorchymyn rhwymo neu rybudd, gan gynnwys y rhai a ystyrid fel eu bod wedi eu disbyddu. Rhaid i chi gwblhau’r adran berthnasol ar y ffurflen gais. Bydd ceisiadau’n cael eu dychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Gwiriad Datgelu a Gwahardd.

| CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL: | |
|---|---|
| 1 | Trefnu gweithgarwch tennis yn adeiladol ac yn ddiogel yn unol â fframweithiau’r Gymdeithas Tennis Lawnt a Chasnewydd Fyw. |
| 2 | Cynllunio a chyflwyno gwersi grŵp strwythuredig gan ddefnyddio Adnoddau’r CTL priodol ar gyfer pob gwers. |
| 3 | Cynnal eich gwybodaeth am dactegau, technegau, rheolau tennis a'r fframwaith y Gymdeithas Tennis Lawnt a helpu i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol i ddatblygu'r tîm. |
| 4 | Darparu Hyfforddiant Grŵp ar bob lefel o fewn Rhaglen Tennis Casnewydd Fyw yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Tennis. |
| 5 | Rhoi cyngor ar welliant tactegol a thechnegol i bob chwaraewr mewn gwersi gan gynnwys Tennis i Blant Bach, Rhaglen Ieuenctid CTL a Thennis Oedolion. |
| 6 | Cefnogi cyd-hyfforddwyr/cynorthwywyr a'r Rheolwr Tennis i gyflwyno maes llafur y rhaglen sgwad ar gyfer yr holl chwaraewyr sydd ar y Rhaglen Datblygu Tennis ar hyn o bryd. |
| 7 | Cyflwyno rhaglenni hyfforddi ysgol fel y cyfarwyddwyd gan y Rheolwr Tennis yn unol â Rhaglen Ysgolion Ieuenctid CTL. |
| 8 | Paratoi a phecynnu offer mewnol ac allanol fel bod cyfleusterau'n barod ac ar gael i gwsmeriaid eu defnyddio. |
| 9 | Trefnu a rhedeg cystadlaethau/cynghreiriau yn unol â rheolau a rheoliadau Tennis Cymru a Chasnewydd Fyw. |
| 10 | Darparu cymorth ym mhob rhan o'r ganolfan gan gynnwys hyfforddi, digwyddiadau, gwerthu, marchnata a gweinyddu. |
| 11 | Cynorthwyo'r Rheolwr tennis i dyfu'r Rhaglen Datblygu tennis drwy recriwtio chwaraewyr yn rhagweithiol drwy allgymorth ac unrhyw raglenni eraill a gyfarwyddir gan y Rheolwr tennis. |
| 12 | Adrodd i'r Rheolwr tennis ar bob mater hyfforddi pan fo'n briodol. |
| 13 | Cynnal a bod yn gyfrifol am gofnodion gweinyddu cywir ar gyfer yr holl sesiynau hyfforddi |
| | Cyfathrebu a hyrwyddo gweledigaeth Casnewydd Fyw, Tennis Cymru a'r CTL yn angerddol. |
| 14 | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol statudol ac yn benodol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) a Deddf Amddiffyn Plant. |
| 15 | Ymgymryd â hyfforddiant, yn ôl yr angen, fel rhan o Raglen Datblygu Parhaus y Gymdeithas tennis Lawnt ac yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr tennis. |
| 16 | Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid drwy fodloni a rhagori ar safonau gofynnol y rhaglen tennis. |
| 17 | Mynychu Fforymau/Cyfarfodydd Hyfforddwyr tennis yn ôl yr angen. |
| 18 | |

**Mae disgwyl i'r person sy'n gwneud y swydd hon weithio o fewn polisïau, ethos a nodau Casnewydd Fyw a chyflawni dyletswyddau eraill y gallai Prif Weithredwr Casnewydd Fyw eu rhoi iddo. Mae'r cyfrifoldebau uchod yn destun y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyffredinol sydd yn y Datganiad Amodau Cyflogaeth. Gall dyletswyddau'r swydd hon amrywio o bryd i'w gilydd heb newid naws gyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi. Bydd deiliad y swydd yn gweithio i gyflawni amcanion perfformiad y cytunir arnynt; caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ffurfiol trwy brosesau rheoli perfformiad Casnewydd Fyw.**

## HYFFORDDWR TENNIS LEFEL 2 – MANYLEB PERSON

| Maes | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | 1.1 Meddu ar Gymhwyster Lefel 2 Cymdeithas Tennis Lawnt (T) cyfredol<br><br>1.2 Meddu ar Achrediad Cymdeithas Tennis Lawnt cyfredol (T)<br><br>1.3 Meddu ar wybodaeth ymarferol am lwybr datblygu y Gymdeithas Tennis Lawnt ac amgylcheddau cystadlu (tennis Cardio, Tennis Xpress a chymhwyster/hyfforddiant tennis Cyffwrdd) (FfG,C)<br><br>1.4 Hyfforddiant dechrau ieuenctid CTL (FfG)<br><br>1.5 Meddu ar Dystysgrif Cymorth Cyntaf Brys Gyfredol (FfG,T) | 1.6 Gweithio gyda phobl sydd ag anabledd mewn rhaglen chwaraeon (C)<br><br>1.7 Hyfforddiant Rhaglen Ieuenctid CTL (FfG)<br><br>1.8 Hyfforddiant Cystadlu Ieuenctid CTL (FfG)<br><br>1.9 Cymwysterau chwaraeon eraill UKCC (FfG,T) |
| **Gwybodaeth, Sgiliau a Medrau** | 2.1 Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac wedi'u hysgrifennu gyda chydweithwyr, pobl ifanc ac asiantaethau partner (FfG,C)<br><br>2.2 Meddu ar sgiliau rheoli amser a threfnu rhagorol (FfG,C)<br><br>2.3 Meddu ar ddull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer (FfG,C)<br><br>2.4 Y gallu i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun (C/P)<br><br>2.5 Y gallu i weithio gyda phobl ifanc o wahanol gefndiroedd a gyda phlant/oedolion sydd ag anghenion penodol (C1)<br><br>2.6 Gwybodaeth am ganllawiau/safonau tennis (C) | 2.7 Siarad Cymraeg (FfG) |
| **Profiad** | 3.1 Profiad o ryngweithio ag oedolion a phobl ifanc a phobl ifanc mewn amgylchedd gwasanaeth cwsmeriaid prysur (FfG,C)<br><br>3.2 Profiad yn gweithio gydag oedolion a phoblifanc mewn amgylchedd tennis (FfG,C1)<br><br>3.3 Profiad o ddarparu lefelau hyfforddi grwpiau Dechreuwyr a Chanolradd | 3.6 Profiad o hyrwyddo, gwerthu a marchnata rhaglenni tennis neu chwaraeon (FfG)<br><br>3.7 Profiadau o arwain gwersi hyfforddi unigol. (FfG) |

| | | |
|---|---|---|
| | (FfG)<br><br>3.4 Profiad o drefnu a rheoli digwyddiadau a chystadlaethau (FfG, C)<br><br>3.5 Profiad o weithio mewn tîm Amgylchedd Tennis a hyfforddi (FfG) | |
| **Nodweddion Personol** | 4.1 Hunan-gymhelliant a phrydlondeb (C)<br><br>4.2 Amynedd a dealltwriaeth wrth weithio gyda phob disgybl gan gynnwys plant/oedolion/grwpiau sydd ag anghenion penodol (C/P)<br><br>4.3 Dangos agwedd broffesiynol wrth fynd i'r afael â heriau yn y gweithle (C)<br><br>4.4 Gallu dangos ymrwymiad i ddatblygiad personol parhaus a pharodrwydd i barhau i hyfforddi. (C)<br><br>4.5 Gallu gweithio i derfynau amser tynn a dan bwysau (FfG)<br><br>4.6 Dangos safonau uchel o ymddangosiad personol a chynnal amgylchedd gwaith glân (FfG)<br><br>4.7 Y gallu yn gorfforol i gyflawni dyletswyddau llawn y rôl (P) | |
| **Arall** | 5.1 Y gallu i weithio'n hyblyg gan gynnwys boreau, yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau (FfG)<br><br>5.2 Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo'n gadarnhaol Polisi Cyfle Cyfartal Casnewydd Fyw (C) | |

**Dull asesu (*D.A.)**

FfG: Ffurflen gais (gan gynnwys llunio rhestr fer)
T: Tystysgrif
Y: Ymarfer
C: Cyfweliad
Cyf: Cyflwyniad
P: Prawf
CA: Canolfan Asesu